Eleri Lewis, **Clerc / Clerk**
Yr Alma
Cribyn
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7ND

Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad

www.llanfihangelystradcc.org.uk
✆ 01570 470 135
e-bost / email: clerc@llanfihangelystradcc.org.uk

# ADRODDIAD CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL YSTRAD

# 2024-25

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad. Mae'n rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Cadeirydd : Y Cyng. Melinda Williams.



Y Cyng. Dan Evans yn trosglwyddo'r awennau i'r Cyng. Melinda Williams

# HANES Y CYNGOR

Mae Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad yng nghanol Sir Ceredigion, hanner ffordd rhwng Lanbedr Pont Steffan ac Aberaeron a hanner ffordd o’r Gogledd i’r De o’r Sir.

Wedi ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1974, pan sefydlwyd Cyngor Sir Dyfed, cafodd y Cynghorau Plwyf eu galw yn ‘Gynghorau Cymuned’.

Yn 1987 unwyd Cyngor Cymuned Dihewyd a Llanfihangel Ystrad. Mae yna wyth (8) Cynghorydd yn Ward Llanfihangel Ystrad a tri (3) yn Ward Dihewyd. Y pentrefi yn Ward LlanfihangelYstrad yw Felin Fach, Ystrad Aeron, Cribyn, Abermeurig, Temple Bar, Ffynnon Oer a rhan o Bont Creuddyn, ac yn Ward Dihewyd, pentref Dihewyd a Throed-y-rhiw.

Cynhelir cyfarfodydd ar yr ail nos Fawrth o bob mis, arwahan i fis Awst a mis Ionawr. Cynhelir cyfarfodydd yn Neuadd Goffa Felin Fach, Ysgol Cribyn a Neuadd Bentref Dihewyd yn eu tro. Cynhelir y cyfarfodydd am 7.30yh.

# SWYDDOGION AC AELODAU

**Cadeirydd**

Y Cyng. Melinda Williams

**Is-Gadeirydd**

Y Cyng. Haf Hughes

**CYNGHORWYR**

Glyn Davies, Johnny Davies, Daniel Evans, Hywel Ifans, Alan Henson, Haf Hughes, Gerwyn Owen, Lynford Thomas ,Harry Williams.

**Clerc**

Eleri Lewis

**Archwilydd Mewnol**

Gwyn Jones

**Cynrychiolydd y Cyngor Sir.**

Y Cyng. Ceris Jones

# CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal y mae'n ei gynrychioli ar ran y gymuned gyfan. Dyma rai o gyfrifoldebau Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad

- gosod Praesept sef y dreth sydd yn cael ei ddosbarthu i'r Cyngor bob blwyddyn
- cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Ceredigion
- cyfrannu at geisiadau am nawdd oddi wrth elusennau/grwpiau/mudiadau ar yr amod y derbynnir mantolen ariannol gyfredol, yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor
- hysbysu adrannau perthnasol Cyngor Ceredigion am gyflwr ffyrdd, llwybrau, pontydd, goleuadau stryd, meysydd parcio a hawliau tramwy.

# POLISÏAU'R CYNGOR

Mae'r polisïau a'r dogfennau canlynol i'w gweld ar y wefan.

- Polisi Preifatrwydd
- Polisi Hyfforddiant
- Rheolau Ariannol
- Y Cod Ymddygiad
- Polisi Iechyd Meddwl
- Ffurflen GDPR
- Adroddiad Bio-Amrywiaeth
- Polisi Iaith
- Rheolau Sefydlog
- Cofrestr Buddiannau
- Datganiadau Ariannol ac Adroddiadau'r Archwilydd Allanol

Llywodraethiant – Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad (llanfihangelystrad-cc.org.uk)

# CYLLID

## ARCHWILIAD ALLANOL

Cyflwynwyd cyfrifon 2024-25 ar sail incwm a gwariant. Cynhaliwyd archwiliad llawn gan Archwilwyr Cymru. Cyflwynwyd a derbyniwyd adroddiad yr Archwiliwr Mewnol yng nghyfarfod mis Mai 2025.

**Mae'r Datganiadau Blynyddol ac Adroddiadau i'w gweld ar y wefan :** Cyllid – Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad (llanfihangelystrad-cc.org.uk)

Prif ffynhonnell incwm y Cyngor yw'r praesept. Dyma'r unig ffynhonnell o incwm sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref. Paratoir cyllideb ddrafft ar sail asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor drwy ystyried y costau tebygol yn yr hydref.

Hawlia'r Cyngor ad-daliad treth ar werth a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

**PRAESEPT: £9,950**

**RHESTR O ROODDION:**

| | |
|---|---|
| Sioe Ysgol Gyfun Aberaeron | £250.00 |
| Neuadd Bentreff Dihewyd Cyfraniad at y Diffibriliwr | £150.00 |
| Eisteddfod Dihewyd | £125.00 |
| Eisteddfod Felinfach | £125.00 |
| Cymdeithas Rh ac Athrawon Bro Pedr | £100.00 |
| Llyfr Dathlu Ysgol Felinfach | £100.00 |
| Ambiwlans Awyr | £100.00 |
| Blood Bikes Wales | £100.00 |
| Urdd Gobaith Cymru Ceredigion | £100.00 |
| Pwll Nofion Aberaeron | £50.00 |
| CFFI Felinfach | £50.00 |
| Eisteddfod Pantyfedwen Llanbed | £25.00 |
| Kids Cancer Charity | £25.00 |
| Cronfa Cyfle I Bawb yr Urdd | £25.00 |
| CFFI Ceredigion | £25.00 |
| **CYFANSWM** | **£1350** |

# HYFFORDDIANT

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (adran 67) yn nodi ei bod yn hanfodol i'r cyngor wneud a cyhoeddi cynllun hyfforddi sy'n nodi ei gynigion mewn perthynas a darparu hyfforddiant ar gyfer ei aelodau a staff. Fe ddylai'r cynllun hyfforddi, nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i adnabod ac mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ei gynghorwyr a'i staff.

Eleni, cynhaliwyd Hyfforddiant o bell  ar y Cod Ymddygiad i bawb ar Chwefror 11eg, 2025 wedi ei drefnu gan Gyngor Sir Ceredigion.

Mae'r Polisi Hyfforddiant llawn i'w weld ar y wefan Llywodraethiant – Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad (llanfihangelystrad-cc.org.uk)



# UN LLAIS CYMRU

Un Llais Cymru yw'r prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru, ac mae'n sicrhau llais cryf i gynrychioli diddordebau'r cynghorau, a darparu ystod o wasanaethau o safon i gefnogi eu gwaith.  Mae 16 o Bwyllgorau Ardal, a'r Pwyllgor Cynghorau Lleol Mwy yn cwrdd yn rheolaidd ac yn rhoi cyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr.

Mae aelodau'n elwa o:

- Cyngor cyfreithiol o safon uchel
- Cyngor ar wella darpariaeth gwasanaethau
- Hyfforddiant
- Materion Polisi –
- Cylchlythyr a gwefan –

Mae aelodaeth yn flynyddol, a seilir y tanysgrifiad ar faint y cyngor.

**Cynrychiolwyr y Cyngor ar y Pwyllgor Rhanbarth 2024-25: Y Cadeirydd a'r Clerc**

# GWEITHGAREDDAU

## SUL Y COFIO

Yn ychwanegol at y symiau uchod cyfranwyd £40.00 i'r LLeng Brydeinig am dorchau pabis coch a £35.00 i Gymdeithas y Cymod am dorchau pabis gwyn.



## BOCSUS BLODAU

I gydymffurfio â'r nod i weithredu'r Polisi Amgylcheddol, arbrofwyd eleni drwy blannu blodau'r maes.



# Meinciau.

Prynwyd 2 fainc newydd wedi ei hail-gylchu ar gyfer Felinfach a Chribyn.




# Age Cymru

Yn rhan o waith y Cyngor i gefnogi’r boblogaeth hŷn penderfynwyd gwahodd Age Cymru i ddod i gynnal sesiynau mewn digwyddiadau cymunedol. Mae Age Cymru’n darparu gwasanaethau sy'n gwella bywyd a chymorth hanfodol i bobl 50+.

Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf yn y bore coffi wythnosol yn Ysgol Cribyn ar yr 21ain o Ionawr dan ofal Carol Williams o Age Cymru. Dangoswyd tipyn o ddiddordeb gan y grŵp hwn mewn cynnal gweithdai celf a gweithdai digidol.  Edrychwn ymlaen at fedru trefnu rhain ar y cyd ag Age Cymru yn ystod 2025.
Cynhaliwyd yr ail sesiwn yng nghyfarfod Y Gymdeithas, Dihewyd ar yr 28in o Fawrth.  Yn dilyn y sesiwn hwn, trefnwyd sesiwn bellach yng nghwmni Dolen Teifi i son am wasanaeth y Bws Gymunedol.




Carol Williams o Age Cymru gyda chriw bore coffi Ysgol Cribyn

# BWS CYMUNEDOL

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae’r Cyngor wedi bod yn cefnogi gweithgareddau Cymdeithas Clotas, Cribyn. Yn rhan o'u hymdrechion i adfywio'r pentref a'r ardal ehangach mae'r pwyllgor wedi sicrhau defnydd o fws cymunedol sy'n cael ei yrru gan wirfoddolwyr. Mae'r bws ar gael ar fore Gwener ar gyfer siopa ac apwyntiadau a phrynhawn dydd Mercher i fynd â chriw i’r Gymdeithas Hwyl a Hamdden yn Theatr Felinfach.




Yn y llun gwelir Elin Jones AS a’r Cynghorwyr Cymuned Alan Henson a Lyn Williams a’r trigolion a ddaeth at ei gilydd i drafod y posibilrwydd o gael bws cymunedol i Gribyn a’r cyffuniau.

# GWOBR Y GYMUNED

Yn flynyddol bellach mae Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad yn cyflwyno plac Gwobr y Gymuned i unigolyn neu grŵp sydd wedi gwneud gwahaniaeth yn y gymuned.

Eleni, cyflywynyd y plac i drefnwyr Taith Tractors Dyffyn Aeron sef, Elgan Bryngwyn, Aled Plas, Eilir Dremddu a Jonathan Deri Goch



**Yn y llun:**

Y Cadeirydd Y Cyng. Melinda Williams yn cyflwyno Plac Gwobr y Gymuned 2024 i Elgan Bryngwyn,Jonathan Deri Goch, Aled Plas,ac Eilir Dremddu.

# TEYRNGED

Gyda thristwch, ar y 19eg o Chwefror, daeth y newyddion bod y Cyng. Johnny Davies wedi ein gadael. Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof amdano ar yr 11eg o Fawrth yn briodol iawn yn Neuadd Dihewyd.

Yn ôl cofnodion Cyngor Bro Dihewyd, croesawyd Johnny i'w gyfarfod cyntaf fel cynghorydd ar y 12fed o Fehefin, 1979 a hynny gan y Cadeirydd ar y pryd, y Cyng. D.L. Evans.

Yn 1987 ffurfiwyd Cyngor Cymuned Llanfihangel ac etholwyd Johnny yn Is-Gadeirydd gan gymryd sedd y Cadeirydd y flwyddyn ganlynol.

Roedd ei adnabyddiaeth o gymdogaeth Dihewyd a'i phobol heb ei ail ac yn elfen amhrisi-adwy yn ei rôl fel Cynghorydd wrth wasanaethu y gymuned oedd mor bwysig iddo.

Bu Johnny'n aelod ffyddlon o'r Cyngor hyd at y diwedd ac yn bresennol yn ein cyfarfod yr wythnos flaenorol.

Gwelwn ei  eisiau'n fawr yn ein cyfarfodydd a'r "wên ddireidus o amgylch y bwrdd" fel a nodwyd gan un o'i gyd-aelodau.   Gwelwn eisiau hefyd ei gyfraniadau a'r stôr o wybodaeth am Dihewyd a Dyffryn Aeron yn ehangach.